Annwyl ffrindiau,

Dyma ni yn eich cyfarch o hydref hyfryd yr Andes a sŵn lleisiau plant bach yn y cefndir wrth i'r ddiwrnod ysgol fynd yn ei blaen. Mae hi bellach yn fis Mai a deufis o weithgaredd wedi mynd heibio. Erbyn hyn mae dros 60 o blant wedi eu cofrestru yn yr ysgol feithrin ac ym Mlwyddyn 1. Mae'r adeilad yn dod yn ei blaen gyda llawer o waith wedi'i wneud dros wyliau'r haf: peintiwyd yr ystafelloedd dosbarth yn ogystal â'r cyntedd, mae'r tai bach a'r ystafelloedd ymolchi wedi cael eu cwblhau ac y tu allan mae'r cafnau wedi'u gosod ac mae'r plant yn mwynhau chwarae ar offer chwarae a roddwyd i ni gan Loteri Chubut.

Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i wastatau'r tir y tu ôl i'r ysgol yn barod i osod y seiliau ar gyfer y neuadd fydd yn cael ei defnyddio fel rhan o'r ysgol ac fel cartref i Eisteddfod Trevelin, sydd eleni yn dathlu 40 o flynyddoedd o fodolaeth. Mae staff yr ysgol yn tyfu gydag athrawes newydd, Claudia Mazziotti, ym Mlwyddyn 1 ar yr ochr Sbaeneg. Yn cydweithio gyda hi ac yn yr ysgol feithrin, rydym yn falch o groesawu Nia Jones yn ôl a hefyd estynnwyd croeso i Mared Gruffydd sydd wedi dod i wirfoddoli gyda ni am dri mis. Ein newyddion mawr ni o ran y Llywodraeth ydy ein bod wedi derbyn trwydded i weithredu fel ysgol gynradd swyddogol. Bydd hyn yn sicrhau bod y plant yn gallu dilyn eu haddysg gynradd ffurfiol gyda ni yn Ysgol y Cwm.

Cynhaliwyd Noson Lawen yng nghwmni Tecwyn Ifan ym mis Mawrth tra oedd o a'i wraig Rhiannon yma yn arwain gweithdai canu gwerin a cherdd dant, a chawsom noson wrth ein boddau gyda chyfraniadau amrywiol gan ddisgyblion a ffrindiau o'r gymuned.

Daeth grŵp o'r enw 'Sonrisas Nomadas' i'n diddanu ym mis Ebrill. Mae'r tri actor wedi bod yn teithio o gwmpas y byd ers dwy flynedd mewn hen injan dân felly bu´n brofiad unigryw a phawb wedi mwynhau! Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn ydy Eisteddfod Trevelin a chroesawn ffrindiau o'r Dyffryn ac o Gymru. Fel bob blwyddyn roedd y cystadlaethau o safon, a daeth digon o blant yn ôl i'r ysgol gyda gwobrau! Ar ôl y gymanfa Ganu yng Nghapel Bethel cawson wledd – pata flambeada, sef coes eidion fflamboeth a chodwyd digon o arian i'n galluogi i wynebu mis arall o filiau!

Efallai eich bod wedi clywed am y llifogydd ofnadwy sydd wedi bod yn ninas Comodoro Rivadavia, a bod pobl yn ddigartref oherwydd y difrod mawr. Does dim dŵr wedi bod ers tair wythnos ac felly aethom ati i gasglu poteli o ddŵr a nwyddau sych a thuniau o fwyd i'w hanfon at y cymunedau sydd wedi'u heffeithio – enghraifft o feddylfryd cymwynasgar yr ysgol.

Mae Gwion wedi bod yn gweithio yn galed iawn i greu ffilm fer am yr ysgol, ac ein gobeithion am y dyfodol. Rydym yn gobeithio codi digon o arian i gyflogi athro neu athrawes o Gymru yn 2018 – efallai eich bod chi´n adnabod rhywun sydd ag awydd dod i weithio gyda ni am flwyddyn? Rhowch wybod os felly! Er mwyn talu am athro neu athrawes ychwanegol, rydym yn chwilio am 150 o bobl i gyfrannu £5 y mis gydag archeb banc misol. Os yr hoffech chi helpu, neu os yr ydych yn adnabod rhywun a fydd yn gallu, mae´r holl fanylion ynghyd a´r ffurflen archeb banc ar ein gwefan www.ysgolycwm.com. Dymuniadau gorau a than y tro nesaf!

Cymuned Ysgol y Cwm , Mai 2017

Dear friends,

Here we are greeting you on a fine autumnal day in the Andes with the sound of children's voices in the background. We are now in May and two months of activities have taken place. By now more than 60 children have registered for the nursery and Year 1. The building work is coming along nicely, with lots of work having been done over the summer holidays. The classrooms and the hallway have been painted, the toilets and bathrooms have been completed and outside the eaves have been completed and the pupils are playing happily on the playground equipment that was donated by the Chubut Lottery.

Work is underway to level the ground behind the school, where foundations will be set for a school hall which will hopefully also be able to host the Trevelin Eisteddfod, which this year celebrates 40 years since it was revived. The school staff continues to grow with the arrival of our new Year 1 Spanish teacher, Claudia Mazziotti. Working alongside her and in the nursery school we are very pleased to welcome back Nia Jones, and we also welcome Mared Gruffydd who has come to volunteer with us for three months. Our big news is that the government has awarded us status as an official primary school - this will ensure that the pupils can complete all their formal primary education here at Ysgol y Cwm.

We held a Noson Lawen in the company of Tecwyn Ifan in March, during which time he and his wife Rhiannon were here leading folk singing and cerdd dant workshops. We had a fabulous evening with a variety of contributions from pupils and friends in the community.

A drama group called 'Sonrisas Nomadas' came to entertain us in April. The three group members have been travelling around the world in an old fire engine so this was a unique experience and everyone enjoyed themselves! One of the highlights of the year is the Trevelin Eisteddfod as we welcome friends from the Chubut Valley and from Wales to enjoy three days of competition. As always the competitions were of a high standard and plenty of our pupils came back to school with prizes. After the Cymanfa Ganu in Capel Bethel we had a feast - a pata flambeada, which is a whole flaming beef leg and we raised enough money to be able to face another month of bills!

Maybe some of you have heard about the terrible floods which happened in the southern Chubut city of Comodoro Rivadavia and that people are homeless because of the awful destruction. They had no water for three weeks and so we got together and collected bottled water and non-perishable goods to send to the communities hardest hit – an example of the community spirit of the school.

Gwion has been working very hard to create a short video about the school and our hopes for the future. In 2018 we would like to employ a teacher from Wales – perhaps you know of someone who might like to come and work with us for a year? In order to pay for the teacher, we´re looking for 150 people to donate £5 a month through a standing order. If you would like to contribute, or know of anyone who would like to help, visit our website www.ysgolycwm.com, where you will find more information along with a standing order mandate to download. Very best wishes and tan tro nesaf!

*The Ysgol y Cwm community, May 2017*



*Y gwaith ar y cafnau/The new eaves*



*Alejandro a Leonardo yn paratoi´r wledd/Alejandro and Leonardo prepare the feast*



*Rhai o´n sêr ar lwyfan yr eisteddfod/Some of our eisteddfod stars*




*Corachod Ysgol y Cwm ar lwyfan yr eisteddfod!/The Ysgol y Cwm elves on the eisteddfod stage!*

**www.ysgolycwm.com** **ysgolycwm@trevelin** twitter **@CwmYsgol**